Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Summergil House School

## Dyddiad yr arolygiad:  Chwefror 2018

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â Summergil House School

Ysgol arbennig annibynnol yw Summergil House, sydd wedi'i lleoli ger y ffin rhwng Powys a Sir Henffordd yn Llanandras. Agorodd yr ysgol ym Mawrth 2017 ac mae'n rhan o grŵp Orbis Education and Care.

Mae'r ysgol yn darparu addysg i ddisgyblion rhwng 5 a 19 oed sydd â diagnosis o anhwylder ar y sbectrwm awtistig. Mae gan bron pob un o'r disgyblion ddatganiad o anghenion arbennig.

Ar hyn o bryd, mae naw o ddisgyblion yn mynychu'r ysgol, sef saith o fechgyn a dwy ferch. Mae llawer o'r disgyblion wedi'u lleoli gan awdurdodau lleol yn Lloegr a'r gweddill yng Nghymru. Saesneg yw iaith gyntaf bron pob un o'r disgyblion.

Mae llawer o ddisgyblion yn byw yn y cartref plant cofrestredig sydd ar y safle.

Penodwyd y pennaeth addysg ym Mai 2017. Mae gan yr ysgol ddau o athrawon dosbarth a thri chynorthwyydd cymorth dysgu. Mae tîm clinigol, yn cynnwys therapydd iaith a lleferydd, arbenigwr ymddygiad a therapydd galwedigaethol, yn cynorthwyo'r tîm addysg.

Nod yr ysgol yw 'darparu amgylchedd ysgol diogel a sicr sy'n annog unigolrwydd, hyder a hunan-barch'.

## Prif ganfyddiadau

### Cryfderau

Ers iddi agor, mae'r ysgol wedi cymryd gofal mawr i gynllunio pontio unigol pob disgybl.  O ganlyniad, mae hyn wedi helpu i leihau gorbryder disgyblion wrth iddynt ymgartrefu yn eu hysgol newydd.  Mae gan ddisgyblion agweddau cadarnhaol tuag at eu dysgu, maent yn mwynhau eu gwersi ac yn ymgymryd â gweithgareddau dysgu yn gadarnhaol.

Mae'r ysgol yn elwa ar leoliad gwledig ac yn darparu amgylchedd dysgu ysgogol.  Mae ardal awyr agored helaeth yn cynnig cyfleoedd da i ddisgyblion ennill gwerthfawrogiad o fyd natur a'r amgylchedd y maent yn byw ynddo.

Mae disgyblion yn elwa ar ystod eang o fewnbynnau therapiwtig a ddarperir gan yr ysgol.  Mae staff arbenigol yn cydweithio'n dda â staff yr ysgol ac, o ganlyniad, mae gan ddisgyblion ymdeimlad cryf o les.

Mae gan yr ysgol systemau priodol ar waith i olrhain anghenion academaidd a chymdeithasol pob disgybl.  O ganlyniad, mae staff yn adnabod eu disgyblion yn dda iawn, ac yn ymateb yn gyflym i'w hanghenion lles a'u hanghenion dysgu.

Mae gan yr ysgol bolisïau priodol ar waith i lywio gwaith yr ysgol, gan gynnwys fersiynau defnyddiol sy'n addas i ddisgyblion, lle bo hynny'n briodol.  Mae arweinwyr yr ysgol yn frwdfrydig ac mae ganddynt ymdeimlad clir o bwrpas.

Mae'r ysgol yn bodloni pob un o Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003.

### Meysydd argymelledig ar gyfer gweithredu

Cryfhau polisïau er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu arweiniad diweddaraf Llywodraeth Cymru a'u bod yn briodol i gyd-destun yr ysgol.

Gwella adroddiadau i rieni i gynnwys mwy o fanylion am yr hyn y mae disgyblion wedi'i gyflawni a sut gallant symud eu dysgu ymlaen.

Sicrhau bod prosesau sicrhau ansawdd yn canolbwyntio ar y safonau a gyflawnwyd a'r cynnydd a wnaed gan ddisgyblion.

## Cydymffurfio â'r safonau ar gyfer cofrestru

### Safon 1: Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i ddangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Safon 2: Datblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol disgyblion

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i ddangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Safon 3: Lles, iechyd a diogelwch disgyblion**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i ddangos nad yw’r ysgol yn bodloni’r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Safon 4: Addasrwydd perchnogion a staff**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i ddangos nad yw’r ysgol yn bodloni’r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Safon 5: Eiddo a llety preswyl mewn ysgolion**

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 5.

**Safon 6: Darparu gwybodaeth**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i ddangos nad yw’r ysgol yn bodloni’r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Safon 7: Y modd yr eir i’r afael â chwynion**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i ddangos nad yw’r ysgol yn bodloni’r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

## Argymhelliad ynghylch cofrestriad parhaus

Wrth ystyried cofrestriad yr ysgol hon, gallai Llywodraeth Cymru ddymuno ystyried yr argymhelliad canlynol:

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i ddangos nad yw’r ysgol yn bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003.

Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad cyfyngedig hwn niweidio canfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad yn unol ag adran 163 Deddf Addysg 2002. Prif ddiben arolygu o dan yr adran hon yw adrodd ar gydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol 2003. Mewn ysgolion sy'n darparu addysg feithrin nas cynhelir, mae'r adroddiad hwn hefyd yn bodloni gofynion Atodlen 26 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 20/04/2018